Llifogydd - pwy all helpu?

# Llifogydd - pwy all helpu?




1. Eich cyflenwr os ydych yn bryderus ynghylch llifddwr yn effeithio ar eich gwasanaethau nwy, trydan, dŵr neu garthffosiaeth
2. Eich awdurdod lleol ar gyfer llifogydd a ddigwydd gan fod gylïau wedi'u cau
3. Eich awdurdod lleol os ydych yn bryderus ynghylch llifogydd a ddigwydd gan fod dŵr yn llifo oddi ar gaeau
4. Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ynghylch llifogydd o afonydd a'r môr
5. Cyfoeth Naturiol Cymru os sylwch ar rwystr yn yr afon

**I gael cyngor pellach, mae Floodline ar gael 24 awr y dydd – 0345 9881188**

6. Efallai y bydd gan eich awdurdod lleol rywfaint o fagiau tywod y gellir eu defnyddio adeg llifogydd, ond eu blaenoriaeth yw amddiffyn y cyhoedd yn gyffredinol. Dylech holi eich awdurdod lleol ymlaen llaw i weld beth yw eu polisi, a pha un a fyddant yn codi tâl am y gwasanaeth. Os na all eich awdurdod lleol gyflenwi bagiau tywod, gallwch brynu rhai eich hun mewn siopau DIY neu gan gyflenwyr adeiladwyr. Gellir cael mwy o gyngor ynghylch bagiau tywod ar Gov.uk
7. Y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i gael cyngor ynghylch cynnyrch i amddiffyn rhag llifogydd
8. Eich cwmni yswiriant i weld a yw eich eiddo wedi'i yswirio ar gyfer difrod llifogydd
9. Eich cwmni dŵr lleol ar gyfer llifogydd carthffosydd, neu pe bai dŵr yn cronni yn eich toiled neu eich sinc yn ystod llifogydd